

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bay House Dental Practice Ltd,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 6 Awst 2018

Dyddiad cyhoeddi: 7 Tachwedd
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?.....	28
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	30
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	32
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	34

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bay House Dental Practice Ltd yn 59 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9HE sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 6 Awst 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelwom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Bay House yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion, gan geisio adborth mewn modd rhagweithiol. Gwelwom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r practis, y cleifion a'r staff.

Roedd cofnodion clinigol, yn ogystal â ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis, yn cael eu cynnal i safon uchel.

Er bod gan y practis yr holl gyffuriau a chyfarpar brys priodol argymhellwn eu cadw yn yr un man er hwylustod mewn achos brys.

Mae angen i'r practis sicrhau bod ei holl staff clinigol yn cael yr hyfforddiant diweddaraf sy'n berthnasol i'w rôl

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod yn cael ei drin ag urddas a pharch.
- Roedd dystiolaeth o linellau cyfrifoldeb clir a gweithdrefnau rheoli ac arwain cadarn gan berchennog a rheolwr y practis.
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel.
- Roedd cofnodion clinigol, yn ogystal â ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis, yn cael eu cynnal i safon uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis sicrhau y caiff holl ddrysau deintyddfeydd eu cau pan fydd cleifion yn cael triniaeth.

- Dylai'r practis sicrhau bod pob meddyginiaeth yn addas at y diben, h.y. heb ddyddio a bod y deunydd pecynnu heb ei ddifrodi.
- Dylai'r practis ddatblygu taflen wybodaeth i gleifion sy'n amlinellu risgiau a buddiannau, ac yn disgrifio triniaeth a sgil-ffeithiau cael triniaeth laser llawfeddygol.
- Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth fod Cyngorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r cyfarpar a'r amgylchedd, nac wedi adolygu'r asesiad risg amgylcheddol.

Gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r canlynol:

- Addaswydd ac argaeledd sbectol amddiffynnol.
- Nid oedd y peiriant laser wedi'i leoli mewn amgylchedd digon diogel pan oedd yn segur.
- Nid oedd cytundeb gwasanaethu, cynnal a chadw na chalibradu ar waith ar gyfer y laser.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, cafodd AGIC sicrwydd digonol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bay House Dental Practice Ltd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, dau hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, un technegydd dihalogi, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Mae gan y practis laser llawfeddygol hefyd, ac mae wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol:

- Triniaeth a therapi tynnu meinwe meddal
- Triniaeth y cymal arlais-fandibol
- Triniaeth a therapi perideintyddol
- Therapi poen

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ac roedd system ar waith ar gyfer nodi cwynion ffurfiol. Roedd hefyd yn ceisio adborth gan gleifion drwy ofyn iddynt gwblhau ffurflen adborth neu arolwg. Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi proses ar waith ar gyfer ymateb i awgrymiadau a sylwadau cleifion.

Nodwyd gennym fod angen i'r practis wella ei ddogfennaeth cleifion yn ymwneud a thriniaeth laser llawfeddygol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

“Fel teulu rydym bob amser wedi derbyn y gofal a'r gwasanaeth gorau posibl. Mae'r staff yn broffesiynol ac yn ymroddedig iawn. Diolch”

“Nid wyf wedi bod gyda'r practis yn hir ond rwyf wedi bod angen llawer o driniaeth a llawer o apwyntiadau. Mae'r staff bob amser wedi bod yn gyfeillgar, gan ystyried fy mhryderon a bod yn sensitif wrth ddarparu triniaeth. Ni allaf fwrw bai ar y gwasanaeth rwyf wedi'i gael hyd yma.”

“Rwyf bob amser wedi cael gofal ardderchog gan fy mhreactis deintyddol. Maen nhw bob amser yn trafod yr holl opsiynau o ran triniaeth ac yn fy nghynnwys yn y broses benderfynu. Pan rwyf wedi bod angen apwyntiad brys maen nhw bob amser yn mynd "gam ymhellach". Gwasanaeth gwych!”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; ymysg sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

"Bob amser yn dod o hyd i apwyntiad i mi os oes problem gyda fy nannedd ac mae hyn wedi digwydd sawl gwaith, ond mae'n cymryd llawer rhy hir i gael apwyntiadau cyffredinol, yn enwedig ar gyfer coronau."

"Dim ond mwy o ddarpariaeth Gymraeg"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod detholiad bach o wybodaeth ar gael am driniaethau preifat e.e. gwynnu dannedd. Roedd un daflen am iechyd y geg ar gael yn y brif ardal aros a'r ddwy ddeintyddfa, ond nid oedd ar gael yn ardal aros deintyddfa'r hylenydd na'r ddeintyddfa ei hun. Argymhellwn ddarparu gwybodaeth ychwanegol am hybu iechyd, gan gynnwys taflenni ar driniaethau a chyngor ataliol, yn yr ardal aros er hwylustod cleifion.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod detholiad o wybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys taflenni ar driniaethau a chyngor ataliol, ar gael i gleifion.

Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Gwelsom y staff yn trin y cleifion yn gwrtais a phroffesiynol.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio ystafell ymgynghori fach wrth ochr y dderbynfa os oedd angen cael trafodaeth breifat wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â'r claf. Roedd gan y practis bolisi cyfrinachedd.

Roedd gwybodaeth mewn llawysgrifen neu wybodaeth electronig am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif wedi'i diogelu. Yn ystod yr awr ginio, gwelsom nad oedd y cyfrifiadur yn un o'r

deintyddfeydd wedi'i gloi a gallem weld gwybodaeth am glaf. Argymhellwn y dylai pob aelod o staff sicrhau y caiff cyfrifiaduron eu cloi ac na ellir gweld gwybodaeth am gleifion cyn gadael deintyddfa. Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi rheoli cofnodion a pholisi diogelu data.

Er bod gan bob deintyddfa ddrysau nodwyd nad oedd un wedi'i gau wrth i glaf dderbyn triniaeth yn ystod yr arolygiad. Argymhellwn gau drysau deintyddfeydd pan fo claf yn cael triniaeth er mwyn iddo gael preifatrwydd ac urddas.

Roedd gan y practis bolisiau priodol ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Hefyd, nodwyd gennym fod 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ i'w gweld yn y dderbynfa a'r ardal aros. Mae'r egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Staff i sicrhau bod pob cyfrifiadur yn cael ei gloi fel na ellir gweld gwybodaeth am glaf heb awdurdod

Staff clinigol i sicrhau bod drysau deintyddfeydd ar gau pan fo cleifion yn cael triniaeth.

Gwybodaeth am gleifion

Lle y bo'n gymwys, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod hefyd yn cael gwybodaeth glir am yr opsiynau trin a oedd ar gael, a'u bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt ei chael.

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

Roedd taflenni yn nodi costau triniaeth breifat yn yr ardal aros. Dywedwyd wrthym mai dim ond cleifion y GIG na chodir tâl arnynt am driniaethau y mae'r practis yn eu trin, a oedd yn golygu nad oedd angen rhestr prisiau'r GIG.

Ar gyfer cleifion a gaiff laser llawfeddygol, nodwyd nad oedd unrhyw wybodaeth ysgrifenedig am y risgiau posibl, buddiannau na sgil-ffeithiau. Argymhellwn y dylai'r practis ddarparu taflen wybodaeth i gleifion sy'n nodi risgiau a buddiannau, ac yn disgrifio triniaeth a sgil-ffeithiau.

Nodwyd nifer o bolisiau perthnasol, gan gynnwys polisi cofnodi asesiad a diagnosis cleifion, polisi darparu cynlluniau triniaethau, a pholisi rheoli cofnodion.

Roedd gan y practis Daflen Wybodaeth i Gleifion, a oedd ar gael yn hawdd i gleifion ac ymwelwyr â'r practis. Roedd angen i'r daflen hon gael ei diweddarau fel ei bod yn bodloni gofynion Rheoliadau Deintyddol Preifat 2017.

Y tu allan i'r practis, gwelsom fod oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng yn cael eu harddangos, ynghyd ag enwau a chymwysterau'r deintyddion i gyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i ddarparu taflen wybodaeth i gleifion sy'n amlinellu risgiau a buddiannau, ac yn disgrifio triniaeth a sgil-ffeithiau cael triniaeth laser llawfeddygol a chofnodi cydsyniad cleifion i driniaeth.

Y practis i sicrhau bod ei Daflen Wybodaeth i Gleifion yn bodloni gofynion Atodlen 2 i Reoliadau Deintyddol Preifat 2017

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod wedi gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Mae gan y practis wefan, a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn cynnwys manylion y triniaethau deintyddol preifat y mae'n eu rhoi, ynghyd â rhestr brisiau. Roedd hefyd yn rhoi canllawiau ar wneud cwyn, manylion tîm y practis, yr oriau agor a sut i gael triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng. Argymhellwn ddiweddarau'r wefan i gynnwys manylion pob aelod o staff clinigol, a pholisi cwynion cyffredol y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i ddiweddarau ei wefan i gynnwys manylion pob aelod o staff clinigol, a pholisi cwynion cyfredol y practis

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'i harddangos wrth fynedfa'r practis ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis. Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Mae'r practis yn rhoi triniaethau fel y nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben².

Dangosodd adolygiad o gofnodion deintyddol y cleifion fod cleifion yn cael eu holi ynghylch eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis. Ni ddangosodd adolygiad o gofnodion cleifion yn ymwneud a thriniaeth a gafwyd gan ddefnyddio laser llawfeddygol fod unrhyw gwestiwn yn cael ei ofyn i gleifion am newid i'w hanes meddygol. Argymhellwn fod y gweithredwr laser yn cofnodi bod cwestiynau am unrhyw newidiadau wedi'u gofyn i'r claf.

² Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i sicrhau bod cleifion sy'n cael triniaeth laser yn cael eu holi am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol a bod hyn yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r claf.

Hawliau pobl

Roedd gris bach yn arwain at fynedfa'r practis. Roedd y dderbynfa a'r ardaloedd aros ar y llawr gwaelod. Roedd gris yn arwain at y deintyddfeydd ar y llawr gwaelod. Roedd deintyddfeydd ychwanegol ar y llawr cyntaf. Gallai cleifion mewn cadeiriau olwyn gyrraedd un o'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod yn uniongyrchol o'r maes parcio yn y cefn.

Roedd toiled i fenywod ar y llawr gwaelod a allai gael ei ddefnyddio gan bobl mewn cadeiriau olwyn sy'n dod i mewn i'r practis drwy'r fynedfa yn y cefn. Roedd y toiled i ddynion ar y llawr cyntaf ac felly ni fyddai modd i bobl mewn cadeiriau olwyn ei ddefnyddio.

Roedd gan y practis bolisiau priodol ar waith i ddiogelu hawliau pobl, gan gynnwys polisi cydraddoldeb.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Pan fo'n berthnasol, roedd y polisi'n gyson â phroses gwynion y GIG "Gweithio i Wella"³, ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat, roedd yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017⁴. Roedd y polisi'n cael ei arddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y dderbynfa.

³ "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/made/welsh>

Yn ystod yr arolygiad cafodd y polisi ei ddiwygio i gynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol.

Rheolwr y practis oedd yr arweinydd a enwebwyd ar gyfer cwynion gan gleifion a nodwyd bod ffolder i gadw cwynion yn cynnwys pro forma (natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad) i'w chwblhau. Dywedwyd wrthym na wnaed unrhyw gwynion hyd yn hyn.

Mae gan y practis ffurflenni adborth ac arolwg wrth ddesg y dderbynfa i gleifion eu cwblhau. Caiff yr ymatebion eu hadolygu'n rheolaidd gan reolwr y practis a'u trafod yng nghyfarfodydd y practis. Er bod y practis yn adolygu'r sylwadau i gyd, nid yw'n rhoi adborth i'r cleifion oni bai y gofynnir amdano. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried cynnwys math o adborth ar ffurf "dywedoch chi: gwnaethom ni" mewn ymateb i sylwadau ac awgrymiadau'r cleifion yn ei gylchlythyr sy'n cael ei ddatblygu.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn ddigonol ac roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, gan gynnwys tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd. Nodwyd gennym nad oedd unrhyw gytundeb gwasanaethu na chalibradu ar waith ar gyfer y laser llawfeddygol ac argymhellwyd cywiro hyn. Gofynnwyd i'r practis roi copi o adroddiad y Cyngorydd Diogelu rhag Laserau i AGIC yn dilyn archwiliad o'r cyfarpar a'r ystafell driniaeth.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau argyfwng ar gael yn y practis. Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn cael eu cadw gyda'i gilydd er hwylustod.

Gofal diogel

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch diffyg cytundeb gwasanaethu, cynnal a chadw a dadebru, addasrwydd ac argaeledd sbectol amddiffynnol a'r peiriant laser ddim yn cael ei storio'n ddiogel o dan ein proses diffyg cydymffurfio. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn atodiad B.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Nodwyd gennym fod nifer o bolisiâu perthnasol ar waith, gan gynnwys polisi safle'r practis, polisi asesu risg cyffredinol a pholisi iechyd a diogelwch. Roedd poster iechyd a diogelwch yn yr ystafell staff. Nodwyd gennym hefyd y cynhaliwyd asesiadau amgylcheddol a risg o dân eleni.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn. Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom fod yr holl ardaloedd y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt yn lân ac yn daclus.

Nodwyd gennym fod dyfeisiau cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel yn y practis. Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Roedd arwyddion priodol yn dangos ble roedd yr allanfeydd tân.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus, gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus a gwastraff amalgam yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio rheolaethau 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH) a thafleini data diogelwch perthnasol a oedd yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n 'berylus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.

Roedd gan y practis bolisi adrodd ar ddamweiniau a llyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) a oedd yn cael ei gwblhau pan fyddai damwain yn digwydd. Nodwyd gennym hefyd fod polisi argyfwng meddygol a llewygu, polisi parhad busnes a strategaeth adfer ar ôl trychineb.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus, a

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Roedd gan y practis aelod o staff penodol ar gyfer dihalogi offerynnau.

Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd protocol anafiadau offer miniog/nodwyddau i'w weld ar y wal hefyd.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05. Hefyd, roedd hefyd wedi cynnal ei archwiliad rheoli heintiau ei hun yn ddiweddar.

Gwelsom dystiolaeth fod y technegydd dihalogi wedi cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau priodol ond o ran y staff clinigol, mae angen i un deintydd a dwy nyrs ddeintyddol gwblhau'r hyfforddiant priodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i sicrhau bod pob aelod o staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi argyfwng meddygol a llewygu. Awgrymwn ddiwygio'r polisi i gynnwys rolau staff adeg argyfwng. Roedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶. Nodwyd gennym fod system ar waith yn y practis ar gyfer sicrhau bod cyffuriau ac offer argyfwng yn barod i'w defnyddio.

Roedd y cyffuriau argyfwng yn cael eu storio mewn man gwahanol i'r pecyn argyfwng. Mewn ymateb i'n cyngor, cawsant eu cadw gyda'i gilydd. Gwnaethom hefyd argymell storio'r ocsigen a chyfarpar cysylltiedig, e.e. masgiau, gyda'i gilydd er hwylustod. Argymhellwn hysbysu pob aelod o staff o leoliadau newydd y ddau. Gwnaethom hefyd argymell storio'r cyffuriau a'u priod algorithmau mewn waledi wedi'u labelu'n glir er mwyn ei gwneud hi'n hawdd eu hadnabod a chael gafael arnynt.

Roedd gan y practis bolisi diweddarau cyffuriau, polisi rhagnodi a pholisi defnyddio meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Wrth adolygu'r deintyddfeydd, gwnaethom ofyn i ddwy feddyginiaeth gael eu symud o un ddeintyddfa. Nodwyd bod y feddyginiaeth gyntaf wedi dyddio ac roedd deunydd pecynnu'r ail wedi'i ddifrodi, gan olygu bod y feddyginiaeth yn y golwg. Gwnaed hyn cyn diwedd yr arolygiad. Argymhellwn gynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw feddyginiaeth na chyfarpar wedi dyddio. Hefyd argymhellwn gadw cofnodlyfr at y diben hwn a'i fod yn cael ei adolygu gan reolwr y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i storio'r ocsigen a'r cyfarpar cysylltiedig gyda'i gilydd.

Y practis i sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod ble cedwir y pecyn argyfwng, y cyffuriau brys a'r ocsigen.

Y practis i storio'r cyffuriau a'u priod algorithmau mewn waledi wedi'u labelu'n glir er mwyn ei gwneud hi'n hawdd eu hadnabod a chael gafael arnynt.

Y practis i sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl

⁶ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

feddyginiaeth a chyfarpar er mwyn sicrhau nad ydynt wedi dyddio, a bod yr archwiliadau hyn yn cael eu nodi mewn cofnodlyfr a adolygir gan reolwr y practis.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed. Mae angen i'r polisi amddiffyn plant a'r polisi diogelu oedolion agored i niwed gael eu diwygio i gynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu lleol perthnasol. Hefyd, awgrymwn ymhelaethu ar y polisi diogelu oedolion er mwyn nodi a chynnwys gwybodaeth am y mathau gwahanol o gam-drin a all gael ei brofi. Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon, a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny yn y practis. Roedd y practis wedi pennu swyddog arweiniol ar gyfer diogelu.

Ar adeg yr arolygiad cawsom dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob aelod o staff ond un, gan mai dim ond yn ddiweddar y gwnaed cais amdani. Argymhellwn anfon copi o'r dystysgrif i AGIC pan fydd wedi dod i law.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i ddiwygio'r polisi amddiffyn plant a'r polisi diogelu oedolion agored i niwed i gynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu lleol perthnasol.

Y practis i anfon copi o dystysgrif DBS un aelod o staff i AGIC.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod offer priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Yn unol â'r rheoliadau, roedd gan y practis bolisi ar gyfer offer y practis a oedd yn cynnwys profi offer, cynnal asesiadau risg priodol a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁷ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)⁸ 2000, roedd pob aelod o staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Ni welsom dystiolaeth fod y peiriant laser llawfeddygol wedi'i galibradu⁹ a'i wasanaethu'n rheolaidd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Ymdriniwyd â hyn drwy gyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. Yn dilyn yr arolygiad, trefnodd y rheolwr cofrestredig i'r laser gael ei wasanaethu a'i galibradu gan beiriannydd cymwysedig.

Gwelsom fod protocol triniaeth ar waith ar gyfer y peiriant laser.

Gwelsom fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau penodol. Dywedwyd wrthym nad oedd y Cynghorydd hwn byth yn ymweld â'r practis na'r ystafell driniaeth yn bersonol. Argymhellwn unioni hyn er mwyn i'r Cynghorydd sicrhau ei hun fod yr ystafell a'r offer yn addas, yn gweithio a bod yr holl ddogfennaeth briodol yn ei lle.

Gwelsom y rheolau lleol¹⁰, yn nodi gweithrediad diogel y peiriant, ond nodwyd nad oedd sôn am yr ystafell driniaeth lle byddai'r laser llawfeddygol yn cael ei ddefnyddio. Mae angen datrys hyn.

⁷ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁸ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

⁹ Gall calibradu rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn parhau'n gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad gorau ac allbwn o'r ansawdd uchaf.

¹⁰ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

Archwiliwyd y sbectol amddiffynnol y mae'n rhaid i'r gweithredwr a'r claf eu gwisgo pan fo'r laser yn cael ei ddefnyddio a nodwyd eu bod wedi'u difrodi. Hefyd, o dan ei delerau cofrestru gall y practis drin cleifion o dan 18 oed ac ar adeg yr arolygiad ni fyddai rhiant neu hebryngwr yn gallu bod yn bresennol pan fyddai person o dan 18 oed yn cael triniaeth gan ddefnyddio'r laser llawfeddygol am mai dim ond un pâr o sbectol amddiffynnol oedd ar gael. Ymdriniwyd â'r ddau beth hyn drwy hysbysiad diffyg cydymffurfio. Yn dilyn yr arolygiad, archebodd y rheolwr cofrestredig sbectol amddiffynnol newydd.

Nid oedd y laser llawfeddygol ar gael i ni ei archwilio'n syth ar ddiwrnod yr arolygiad am ei fod yn cael ei gadw yng nghartref y rheolwr cofrestredig. Rhaid i'r offer gael ei gadw mewn man diogel ac argymhellwn ddatrys hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i drefnu i'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau archwilio'r ystafell driniaeth, yr offer a'r ddogfennaeth a llunio adroddiad ar yr ymweliad hwnnw. Y practis i anfon copi o'r adroddiad hwnnw i AGIC.

Y practis i sicrhau bod y laser llawfeddygol yn cael ei gadw mewn man diogel yn y practis.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n barhaus er budd y cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen gynhwysfawr o archwiliadau clinigol, wedi'i hategu gan bolisi archwiliadau clinigol. Roedd y rhaglen yn cynnwys archwiliadau radiograffeg, archwiliadau rheoli heintiau ac archwiliadau cadw cofnodion. Hefyd, roedd y practis yn cynnal arolygon blynyddol o gleifion.

Nodwyd gennym fod polisïau ar waith yn y practis yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion ac asesu, diagnosio a thrin cleifion.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid deintyddol yn cael eu cynnal. Byddem yn argymhell y dylid trefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd rhwng y deintyddion at y diben hwn. Efallai yr hoffai'r practis

hefyd ystyried trefnu cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y nyrsys deintyddol at ddibenion trafod materion clinigol.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried gwneud cais am adnodd datblygu practisau 'Maturity Matrix Dentistry' Deoniaeth Cymru¹¹. Mae'r 'Maturity Matrix Tool' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben adolygu cymheiriaid.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig a chofnodion ar bapur, a nodwyd gennym fod y rhain yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu creu o ffeiliau electronig.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd proses cadw cofnodion deintyddol o ansawdd da iawn yn cael ei dilyn, gan awgrymu bod gofal da wedi'i roi i gleifion. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn. Felly, rhaid canmol ansawdd y broses cadw cofnodion clinigol.

¹¹ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Y prif ddeintydd/perchennog oedd yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig. Roedd yn cael ei gefnogi gan reolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Argymhellwn ddarparu i'r staff dystio eu bod wedi darllen y polisiau ac wedi'u deall.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, ac roedd y staff yn cael eu harfarnu bob blwyddyn ac yn cael cyfarfodydd yn rheolaidd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Bay House Dental Practice Ltd yn berchen i'r prif ddeintydd, sef yr unigolyn cyfrifol¹² a'r rheolwr cofrestredig¹³. Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am ei

¹² ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli

¹³ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

reoli o ddydd i ddydd. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod pob aelod o staff yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Argymhellwn y dylai'r practis ofyn i'r staff dystio eu bod wedi darllen y polisiau ac wedi'u deall.

Cawsom gopi o'r Datganiad o Ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ond roedd angen cynnwys manylion cyswllt AGIC yn yr adran ar drefniadau'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC o dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ofyn i'r staff dystio eu bod wedi darllen y polisiau ac wedi'u deall.

Y practis i ddiwygio ei Ddatganiad o Ddiben er mwyn cyfeirio at AGIC yn yr adran sy'n rhoi gwybodaeth am y broses o ymdrin â chwynion gan gleifion.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau cysylltiedig ag adnoddau dynol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi recriwtio a dethol a pholisi arfarnu. Unwaith eto argymhellwn fod y rhain yn cael eu llofnodi gan y staff er mwyn dangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Nodwyd gennym fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Nodwyd gennym hefyd fod gan y practis raglen polisi sefydlu a pholisi hyfforddi staff. Roedd staff dros dro yn cael eu trefnu drwy asiantaeth a fyddai'n cadarnhau addasrwydd yr unigolyn i weithio.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u dogfennu. Nodwyd gennym fod gan bob deintydd Gynllun Datblygu Personol.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Ategwyd hyn gan bolisi DPP y practis.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff. Caiff nifer o bynciau eu trafod yn y cyfarfodydd hyn, gan gynnwys hyfforddiant, materion yn ymwneud â'r practis, unrhyw newidiadau i bolisïau ac adborth gan gleifion. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn. Caiff staff na allant fod yn bresennol y wybodaeth ddiweddaraf gan reolwr y practis ar lafar, ar drafodaethau a phwyntiau gweithredu. Dylid rhannu'r cofnodion er mwyn i bob aelod o'r staff eu llofnodi i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u bod yn eu deall.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol.

Dylai fod gan holl weithredwyr awdurdodedig y laser llawfeddygol Dystysgrif DBS gyfredol. Nid oedd gan un o'r gweithredwyr dystysgrif gyfredol. Rydym yn argymhell y dylai gwiriadau datgelu a gwahardd (ar lefel Fanylach) gael ei hadnewyddu bob 3 blynedd ar gyfer pob aelod o'r staff sydd â mynediad uniongyrchol heb oruchwyliaeth at gleifion er mwyn bodloni Rheoliad 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael eu diogelu rhag risgiau gofal neu driniaeth amhriodol neu anniogel.

Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiweiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod parhaol o'r staff clinigol. Byddai un o'r deintyddion, wrth weithio yn y practis, yn cael cymorth nyrs o'i brif weithle ac ni welsom brawf imiwnedd ar gyfer y nyrs ddeintyddol hon. Mae angen unioni hyn.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd yn rhinwedd ei rôl fel rheolwr cofrestredig ac unigolyn cyfrifol ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017.

Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i sicrhau bod pawb sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio'r laser llawfeddygol yn cael gwiriad datgelu a gwahardd a rhoi tystiolaeth i AGIC fod ganddynt dystysgrif gyfredol.

Y practis i ddangos prawf o imiwnedd rhag Hepatitis B i AGIC, o ran y nyrs ddeintyddol dros dro.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd y polisi cwynion yn cynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol	Gallai ddim gwybod â phwy i gysylltu atal claf rhag gwneud cynw am y practis i'r bwrdd iechyd lleol.	Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn yn ystod yr arolygiad	Yn ystod yr arolygiad gwnaeth rheolwr y practis ddiwygio'r polisi cwynion i gynnwys y manylion cyswllt perthnasol.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Bay House Dental Practice Ltd

Dyddiad arolygu:6 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 13(2) (a). Y rheswm dros hyn yw bod un pâr o sbectol amddiffynnol wedi'i ddifrodi ac yn anaddas, gan olygu nad oedd digon i riant neu hebryngwr. Hefyd, nid oedd y peiriant wedi'i gadw mewn amgylchedd diogel addas pan oedd yn segur.	Rheoliad 13(2)(a)	Rydym wedi archebu 2 bâr newydd o sbectol diogelwch i gleifion oddi wrth Laser Support, un i'r claf ac un i unrhyw hebryngwr sydd ei angen. Mae gennym gabinet sefydlog a gedwir dan glo lle cedwir y laser pan fo'n segur.	Simon Spiller	Rydym wedi cael gwybod bod angen aros 10-14 diwrnod am y sbectol. Yn syth

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 13(2) (a). Y rheswm dros hyn yw nad oes cytundeb gwasanaethu, cynnal a chadw na chalibradu ar waith ar gyfer y laser deintyddol.	Rheoliad 13(2)(a)	Mae apwyntiad gwasanaethu a chalibradu wedi'i drefnu gan yr asiant cyflenwi ar 30 Awst 2018	Simon Spiller	30 Awst 2018

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Simon Spiller

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig a Phrif Ddeintydd

Dyddiad: 14 Awst 2018

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bay House Dental Practice Ltd

Dyddiad arolygu: 6 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Y practis i ddarparu detholiad o wybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys taflenni am driniaethau a thafenni cyngor ataliol, i'r cleifion	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd;	Taflenni Hybu Iechyd ar gael yn y deintyddfydd ar Feddalwedd Ddeintyddol eisoes. Argraffu rhai taflenni ar unwaith a'u gadael yn yr ystafell aros	Mrs Sian Dugdale	Ar unwaith
Staff i sicrhau bod pob cyfrifiadur yn cael ei gloi fel na ellir gweld gwybodaeth am glaf heb awdurdod	4.1 Gofal Gydag Urddas; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 13(9)(c)	Caiff pob cyfrifiadur ei gloi pan fo'n segur erbyn hyn	Mrs Sian Dugdale	Ar unwaith

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Staff y practis i sicrhau bod drysau deintyddfeydd ar gau pan fo cleifion yn cael triniaeth.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 15(1)	Caiff pob drws ei gau yn ystod triniaeth	Pob aelod o staff	Ar unwaith
Y practis i ddarparu taflen wybodaeth i gleifion sy'n amlinellu risgiau a buddiannau, ac yn disgrifio triniaeth a sgil-ffeithiau cael triniaeth laser llawfeddygol a chofnodi cydsyniad cleifion i driniaeth.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adrannau 6 ac 8	Llunio gwybodaeth i gleifion am gael triniaeth a chynlluniau gan gynnwys triniaeth laser. Caiff pob cydsyniad i driniaeth ei gofnodi ar nodiadau'r cleifion ond llunio ffurflen cydsynio i driniaeth laser yn benodol	Dr Simon Spiller	2 fis
Y practis i sicrhau bod ei Daflen Wybodaeth i Gleifion yn bodloni gofynion Atodlen 2 i Rheoliadau Deintyddol Preifat 2017	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adrannau 6 ac 8	Diwygio'r Daflen Wybodaeth i Gleifion er mwyn bodloni gofynion y Rheoliad	Mrs Sian Dugdale	1 mis
Y practis i ddiweddarau ei wefan i gynnwys manylion pob aelod o staff clinigol, rhifau ffôn perthnasol ar gyfer cael triniaeth ddeintyddol frys, a pholisi cwynion cyfredol y practis	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 6(2)	Gwefan newydd yn cael ei dylunio ar hyn o bryd. Diwygio'r wefan bresennol cyn gynted â phosibl	Mrs Sian Dugdale	1 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Y practis i sicrhau bod cleifion sy'n cael triniaeth laser yn cael eu holi am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol a bod hyn yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r claf.	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth; I Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 20(a)(ii)	Mae pob claf eisoes yn cael ei holi ym mhob apwyntiad am newidiadau i'w hanes meddygol, ni waeth y driniaeth a fyddai'n cynnwys triniaeth laser	Dr Simon Spiller	Ar unwaith
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Y practis i sicrhau bod pob aelod o staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 17(3)(a)	Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant rheoli heintiau ond nodwyd tri aelod o'r staff i fynd ar gwrs rheoli croes-heintio ar 12 Tachwedd 2018	Mrs Sian Dugdale	Yn syth
Y practis i storio'r ocsigen a'r cyfarpar cysylltiedig gyda'i gilydd.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 31 (3)(b) Cyngor Dadebru (DU)	Cadw'r holl gyfarpar yn yr un man	Mrs Sian Dugdale	Yn syth
Y practis i sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod ble cedwir y pecyn argyfwng, y cyffuriau brys a'r ocsigen.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 31(3)(b)	Mae pob aelod o'r staff eisoes yn gwybod ble mae'r pecyn argyfwng	Mrs Sian Dugdale	Yn syth
Y practis i storio'r cyffuriau a'u priod	Rheoliadau Deintyddiaeth	Llunio algorithmau brys a'u cadw	Mrs Sian	1 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
algorithmau mewn waledi wedi'u labelu'n glir er mwyn ei gwneud hi'n hawdd eu hadnabod a chael gafael arnynt.	Breifafat 2017 Adran 31(3)(b)	gyda'r cyffuriau brys a'r cyfarpar	Dugdale a Simon Spiller	
Y practis i sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl feddyginiaeth a chyfarpar er mwyn sicrhau nad ydynt wedi dyddio, a'u bod yn cael eu nodi mewn cofnodlyfr a adolygir gan reolwr y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifafat 2017 Adran 13(4)	Cadw cofnodlyfr o'r feddyginiaeth a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn deintyddfeydd gyda dyddiadau defnyddio erbyn	Mrs Sian Dugdale a'r staff nyrsio	2 fis
Y practis i ddiwygio'r polisi amddiffyn plant a'r polisi diogelu oedolion agored i niwed i gynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu lleol perthnasol.	2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifafat 2017, Adrannau 8 a 14	Wedi diwygio'r ddau bolisi i gynnwys manylion cyswllt sefydliadau cymorth	Simon Spiller	Ar unwaith
Y practis i anfon copi o dystysgrif DBS un aelod o staff i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifafat 2017 Adran 18(1)	Aros am gopi o'r dystysgrif DBS. Anfonir copi unwaith y daw i law.	Mrs Sian Dugdale	Ar unwaith
Y practis i drefnu i'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau archwilio'r ystafell driniaeth, yr offer a'r	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliadau Deintyddiaeth	Trefnu archwiliad o ddeintyddfa 1 a dogfennaeth lle defnyddir y laser gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau	Mr Simon Spiller	2 fis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddogfennaeth a llunio adroddiad ar yr ymweliad hwnnw. Y practis i anfon copi o'r adroddiad hwnnw i AGIC.	Breifat 2017 Adran 32			
Y practis i sicrhau bod y laser llawfeddygol yn cael ei gadw mewn man diogel yn y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 32	Laser eisoes yn cael ei gadw dan glo	Simon Spiller	Ar unwaith
Dylai'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben adolygu cymheiriaid.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 16	Trefnu cyfarfodydd ac adolygiad pellach gan gymheiriaid gan ddefnyddio Matrics Deintyddol	Simon Spiller	3 mis
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r practis ofyn i'r staff dystio eu bod wedi darllen y polisïau ac wedi'u deall.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 8	Llunio mynegai o'r polisïau a sicrhau bod pob polisi yn cael ei ddarllen a'i ddeall. Pob aelod o'r staff i lofnodi ei fod wedi darllen pob un	Sian Dugdale	3 mis
Y practis i ddiwygio ei Ddatganiad o Ddiben er mwyn cyfeirio at AGIC yn yr adran sy'n rhoi gwybodaeth am y	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adrannau 5 a 7 ac Atodlen 1	Diwygio'r Datganiad o Ddiben i gynnwys proses gwynion gan gyfeirio at AGIC	Simon Spiller	Ar unwaith

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
broses o ymdrin â chwynion gan gleifion.				
Y practis i sicrhau bod pawb sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio'r laser llawfeddygol yn cael gwiriad datgelu a gwahardd a rhoi tystiolaeth i AGIC fod ganddynt dystysgrif gyfredol.	7.1 Gweithlu; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 18	Mae gan bob defnyddiwr dystysgrif DBS gyfredol erbyn hyn 1 dystysgrif wedi'i hatodi	Mrs Sian Dugdale	Ar unwaith
Y practis i ddangos prawf o imiwnedd rhag Hepatitis B i AGIC, o ran y nyrs ddeintyddol dros dro.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 18(1	Cadarnhau statws Hep B pob aelod o'r staff dros dro a darparu tystiolaeth o'r nyrs dros dro a nodwyd. Tystiolaeth wedi'i hatodi	Sian Dugdale	Ar unwaith

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Simon Spiller

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 23 Hydref 2018

